



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Adroddiad Blynyddol am y Gymraeg 2019-20

Tylwyth, Theatr Genedlaethol Cymru a Theatr y Sherman (llun: Mark Douet)

Datganiad y Cadeirydd

*“Y Gymraeg yn anad dim sy’n gwneud Cymru'n unigryw.
Mae’r Iaith yn eiddo i ni gyd.*”

*Os yw’r Gymraeg i ffynnu, rhaid dod o hyd i ffyrdd newydd o
wireddu potensial y celfyddydau yn llawn a’u gosod wrth
galon bywyd Cymru-Er Budd Pawb. Mae gwaith eto i’w wneud
ac y mae pandemig Cofid-19 wedi dwyshau’r angen, ond
mae’n flaenoriaeth bwysig i ni.”*



Marian Wyn Jones

Cadeirydd, Grŵp Monitro'r Gymraeg ac
Is-gadeirydd Cyngor Celfyddydau Cymru

Cynnwys

Ein gweledigaeth ar gyfer celfyddydau Cymraeg	4
Gwaith Grŵp Monitro'r Gymraeg	8
Cyflawni ein Cyfrifoldebau Deddfwriaethol	11
Tystiolaeth o'r 5 Ffordd o Weithio	14
Beth rydym ni wedi'i gyflawni eleni	19
Beth oeddem ni'n gobeithio ei wneud yn well yn 2019/20?	23
Ar beth y byddwn ni'n ei ganolbwyntio yn 2020/21?	25
Ystadegau/data allweddol	29
Astudiaeth Achos	42



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn print bras, braille, sain, Hawdd ei Ddeall ac Iaith Arwyddion Prydain a bydd yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg os gofynnir amdani.



Ein gweledigaeth i'r celfyddydau Cymraeg

Cyngor Celfyddydau Cymru yw prif asiantaeth datblygu ac ariannu celfyddydau Cymru. Mae gennym gyfrifoldeb – fel y dywed ein [Siarter Frenhinol](#) – i ddatblygu a chefnogi'r celfyddydau yn nwy iaith ein gwlad. Mae Cymru'n genedl ddwyieithog – yn gyfreithiol, yn gymdeithasol, yn ddiwylliannol, ac fel unigolion a chymunedau. A ninnau'n sefydliad dwyieithog, mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg yn rhan annatod o'n gwaith.

Hefyd rydym ni'n un o'r cyrff cyhoeddus a enwir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n ddeddf arbennig i Gymru sy'n rhwymo pawb i gydweithio i gyflawni'r 7 Nod Llesiant. Un o'r nodau yw Cymru lle mae'r Gymraeg a'i diwylliant yn ffynnu. Felly mae gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod ein holl waith o ddatblygu'r celfyddydau'n cefnogi'r nod.

Mae Llywodraeth Cymru ei hun yn ddarostyngedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac mae wedi nodi ei gweledigaeth ar gyfer Cymru o Filiwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'n darged uchelgeisiol. Rydym ni'n ymwybodol y gall sector y celfyddydau wneud cyfraniad pwysig at gynyddu nifer pobl Cymru sy'n deall a siarad Cymraeg. Rydym ni wedi ymrwymo i wneud popeth yn ein gallu i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r Gymraeg drwy weithgarwch a chyfleoedd yn y celfyddydau. Yn dilyn adroddiad Elen ap Robert, Mapio'r Gymraeg, ag yn sgil effaith pandemig Cofid-19, mae'n flaenoriaeth allweddol i ni. Byddwn yn gweithio ar weledigaeth a strategaeth newydd y flwyddyn nesaf ac yn chwarae rôl lawer iawn mwy rhagweithiol.



Rygi: Annwyl i Mi, Cwmni Dawns Cenedlaethol Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2019 (llun: Iolo Penri)

Pa wahaniaeth y gallwn ni ei wneud?

Mae ymchwil ym maes caffael iaith yn dangos bod dymuno deall a chymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau diwylliannol yn sbardun pwysig i ddysgu a defnyddio iaith. Felly mae gan sector y celfyddydau ran bwysig i'w chwarae o ran cyrraedd y targed o gael miliwn o siaradwyr.

Mae llawer o blant a phobl ifanc yn cael addysg Gymraeg neu'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion a cholegau. Mae llawer ohonynt yn dod o gartrefi di-Gymraeg felly mae'n bwysig bod gweithgareddau diwylliannol Cymraeg bywiog ar gael iddynt, yn agos at eu cartref neu'n ddigidol, i'w hannog i weld y Gymraeg yn iaith fyw, feunyddiol. Heb yr agwedd yna, mae perygl mai dim ond yn yr ysgol y daw eu cysylltiad â'r Gymraeg.

Rydym ni am ariannu gweithgareddau celfyddydol o safon sy'n adlewyrchu bywyd cyfoes Cymru. I gynnal yr iaith, mae'n bwysig bod cyfleoedd i gymdeithasu, trafod ac ymwneud ag ystod o weithgarwch a phrofiadau artistig sy'n adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau Cymraeg. Heb hyn, bydd yn anodd sicrhau bod yr iaith yn gynhwysol ac yn goroesi ar gyfer y cenedlaethau a ddaw.

Mynychodd

92.3%

o oedolion Cymraeg
o leiaf un digwyddiad
celfyddydol unwaith
y flwyddyn neu'n
amlach yn 2019

Ffynhonnell: Adroddiadau Omnibws Cymru 2012-2019

Mae gennym ran i'w chwarae i sicrhau y gall pobl fynychu digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn agos i'w cartrefi a chymryd rhan ynddynt. Rydym ni'n ymwybodol bod dosbarthiad presennol y cyfleoedd ledled Cymru yn anwastad. Mae'r ddarpariaeth yn ein dinasoedd mawr (Caerdydd, Abertawe a Chasnewydd) yn wael o'i chymharu â'r boblogaeth. Heb fynediad hawdd a rheolaidd at weithgarwch Cymraeg, mae'n anodd iawn datblygu a chynnal iaith.

Rydym ni'n cefnogi artistiaid i weithio yn y Gymraeg. Rydym ni wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd ym mhob agwedd ar y celfyddydau i ymarferwyr weithio yn eu dewis iaith. Nid yw bob amser wedi bod yn hawdd cynnal gyrfa artistig drwy'r Gymraeg, ac mae gennym ni ein rhan i'w chwarae i wella'r sefyllfa.

Rydym ni'n ariannu Portffolio Celfyddydol Cymru yn flynyddol ac artistiaid unigol, sefydliadau a phrosiectau drwy ein rhaglenni Loteri Genedlaethol. Felly, gallwn ddylanwadu ar y defnydd beunyddiol o'r Gymraeg gan gynyddu ei hamlygrwydd, creu cyfleoedd ar gyfer gwaith Cymraeg a datblygu ein gwasanaeth eiriolaeth drosti drwy ein rhwydwaith o bartneriaid.

Rydym ni'n gorff cyhoeddus sydd â grym, dylanwad ac adnoddau ac felly rydym ni mewn sefyllfa i eiriol yn gryf dros y Gymraeg. Mae cadw'r iaith yn fyw ar gyfer y cenedlaethau a ddaw yn fater yn y pen draw o ddylanwadu ar galon a meddwl pobl Cymru. Mae'n bwysig ein bod yn sefyll yn y bwlch a chreu amgylchedd lle gall yr iaith ffynnu.

Gwaith Grŵp Monitro'r Gymraeg

Diben a swyddogaeth Grŵp Monitro'r Gymraeg

Mae monitro ein cyfrifoldebau dan Fesur y Gymraeg (Cymru) yn rhywbeth rydym ni'n ei gymryd o ddifrif. Rydym ni'n awyddus nid yn unig i gyflawni ein rhwymedigaethau ond i hyrwyddo egwyddorion y ddeddfwriaeth a rhoi amlygrwydd i'r Gymraeg a chefnogi ei datblygiad.

Mae ein gwaith yn cael ei gychwyn, ei reoli a'i fonitro gan ein corff llywodraethau (y Cyngor) gyda chymorth 3 is-bwyllgor a thri Grŵp Monitro (y Gymraeg, Lles Cenedlaethau'r Dyfodol, a Chydraddoldeb). Mae'r Cyngor yn dirprwyo grymoedd penodol iddynt. Mae'r Grwpiau Monitro yn ddarostyngedig i'r Cyngor yn ein strwythur llywodraethu ond mae ganddynt swyddogaeth graffu bwysig i adrodd i'r Cyngor ar berfformiad y gweithgarwch yn eu cylch gwaith

Prif swyddogaeth pob un o'r Grwpiau yw:

- ① adolygu a monitro datblygu polisiau a gweithdrefnau (a chyfrannu atynt) i weithredu a hyrwyddo egwyddorion a gofynion pob un o'r deddfau. Gall hyn gynnwys cynghori ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol ein staff.
- ② sicrhau bod ein gwaith yn y maes yn gyson ag uchelgais y deddfau.
- ③ ymgorffori egwyddorion y deddfau'n agwedd hanfodol ar ein buddsoddi, ein prosesu a'n rhaglennu.
- ④ cyfrannu at fonitro cydymffurfiad â'r holl ofynion statudol a rheoliadol perthnasol, gan gynnwys dyletswyddau cyffredinol a phenodol sy'n gysylltiedig.
- ⑤ rhoi cyngor am ddatblygu, gweithredu a monitro prosiectau datblygu penodol.

Yn 2019 cymerodd
bron hanner o'r holl
oedolion Cymraeg
(49.3%)
ran mewn
gweithgarwch
celfyddydol o leiaf
unwaith yn ystod y
flwyddyn

Ffynhonnell: Adroddiadau Omnibws Cymru 2012-2019

Mae Grŵp Monitro'r Gymraeg yn craffu ar ein cydymffurfiad â'n gofynion cyfreithiol, ein cynnydd gydag amcanion datblygu a'n data am y Gymraeg. Mae'n dod ag unrhyw faterion sy'n peri pryder, neu feysydd i'w gwella, at sylw'r Cyngor.

Cadeirir y Grŵp Monitro'r Gymraeg gan Is-gadeirydd y Cyngor, Marian Wyn Jones, ac mae'n cynnwys aelod o'r Cyngor, Tudur Hallam, ac amryw aelodau o'n staff. Fel arfer mae'n cyfarfod bob chwarter cyn cyfarfodydd y Cyngor.



LOÏC RAISON
CIDRIER DE CARACTÈRE

AVANC, Festival Interceltique de Lorient, trac (llun: Pierre Sallier)

Cyflawni ein cyfrifoldebau deddfwriaethol

Mae **Mesur y Gymraeg** (Cymru) 2011 yn sefydlu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am orfodi dyletswyddau cyfreithiol y Mesur drwy gyfres o Safonau y mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus fel ninnau eu bodloni. Mae'r Comisiynydd hefyd yn ein monitro'n flynyddol i asesu ein perfformiad o ran cwrdd â'r safonau.

Un o dasgau allweddol Grŵp Monitro'r Gymraeg yn y blynyddoedd diwethaf oedd gweithredu Safonau'r Gymraeg.

Mae rhestr lawn o'r safonau sy'n berthnasol i ni [yma](#).

Rydym ni'n falch o nodi ein bod, yn 2019/20, wedi cyflawni pob un ond un o'r safonau. Safon 90 sy'n aros heb ei bodloni. Mae Safon 90 yn ymwneud â'r arian a gawn o'r Loteri Genedlaethol a'r angen i sicrhau bod pob cais yn ystyried yr effaith gadarnhaol a negyddol ar y Gymraeg.

Ar hyn o bryd rydym ni'n gweithio tuag at gydymffurfio'n llawn â Safon 90. Ond roedd y gwaith wedi'i ohirio oherwydd:

- yn 2019, yn sgil ymgynghoriad cyhoeddus, roeddem ni wedi cyflwyno ein Rhaglenni Loteri Genedlaethol newydd. Rhan annatod o'r gwaith oedd ymgorffori egwyddorion y Gymraeg ar draws pob agwedd ar roi grantiau, gan gynnwys sut i weithredu'n llawn Safon 90 a dangos ein bod yn ei hystyried.
- ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2019/20 daeth y coronafeirws. Roeddem ni wedi atal dros dro ein rhaglenni Loteri Genedlaethol i sianelu'r arian i gronfa ymateb brys ac ymsefydlogi i artistiaid a sefydliadau celfyddydol.



Aberhenfelen, Theatr Bara Caws - cyd gynyrchiad gyda'r Urdd
(llun: llunia Cwmni)

- buom ni'n datblygu Pecyn Offer i'r Gymraeg i gynorthwyo'r sefydliadau a'r unigolion a ariannwn i'w helpu i hyrwyddo eu darpariaeth Gymraeg i ategu gweithgarwch rhaglen y Loteri Genedlaethol.

Nid ydym ni'n cydymffurfio'n llawn â Safon 90 eto, ond rydym ni'n craffu ar bob un o'n ceisiadau i weld eu cyfraniad at ddatblygu'r Gymraeg. Roedd hyn yn flaenoriaeth glir i'n penderfyniadau drwy gydol y flwyddyn ariannol. Roedd ein deialog â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn gadarnhaol. Rydym ni'n hyderus y buom ni'n cyflawni'r Safon 90 mewn egwyddor eleni a chyn diwedd y flwyddyn yma y byddwn ni wedi bodloni ei holl ofynion.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Dan y ddeddf, rhaid inni ddangos sut mae ein gwaith yn cyflawni ein hamcanion ein hunain a chyflawni'r 7 Nod Llesiant i Gymru. Hefyd rhaid inni ddangos ein bod yn dilyn y 5 Ffordd o Weithio – mathau o ymddygiad sy'n cefnogi'r egwyddor o ddatblygu cynaliadwy sydd wrth wraidd y ddeddf.

Mae'r Gymraeg yn cael ei chrybwyll yn benodol yn y nod diwylliannol, felly mae'r iaith yn rhan bwysig o'n hatebolrwydd fel corff cyhoeddus.

Mae hefyd yn allweddol i ni feddwl am bwysigrwydd yr iaith Gymraeg ar draws y goliau eraill. Trwy ein partneriaethau ffurfiol gydag Addysg, y Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru er enghraifft, mae modd i'r celfyddydau ddod a dimensiwn ieithyddol i'r arlwy creadigol ac ymestyn defnydd bob dydd o'r iaith.

Tystiolaeth o'r 5 Ffordd o Weithio

Integreiddio ein gwaith ar y nodau llesiant gyda chyrrff cyhoeddus eraill

Dros y deuddeg mis diwethaf rydym ni wedi:

- creu partneriaeth gryfach o lawer gydag Uned Datblygu Iaith Llywodraeth Cymru a sector datblygu'r Gymraeg ac arwain ar Blwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO.
- dyfnhau ein perthynas â'r Mentrau Iaith, trwy ymchwil Elen ap Robert, y Siarter Iaith yng Nghaerdydd a nifer o brosiectau celfyddydol megis Tafwyl.
- ymwneud â mentrau'r awdurdodau lleol i ddatblygu'r Gymraeg, gan gynnwys gwaith ar Siarter Iaith yr ysgolion a chynlluniau datblygu lleol i gynnwys elfen ddiwylliannol.

Cynyddu ein cydweithio a'n partneriaethau

Mae cydweithio a phartneru cadarn yn hanfodol i'n gwaith o ddatblygu'r Gymraeg yn y dyfodol ac rydym ni wedi gwneud cynnydd da eleni o ran:

- agor deialog gyda'r gymuned datblygu'r Gymraeg.
- hwyluso rhagor o rwydweithio rhwng ymarferwyr a sefydliadau Cymraeg.
- cydweithio dramor â mentrau datblygu iaith drwy Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru.

Gwranddo ar ein staff, ein rhanddeiliaid a'n buddiolwyr

- Mae ein grŵp monitro'r Gymraeg yn cynnwys staff o bob rhan o'r sefydliad ac roeddem ni'n cynnwys staff wrth ddatblygu ein cynllun corfforaethol, ein cynllun gweithredol a'n hymgyngghoriad ar strategaeth newydd y Lotei Genedlaethol. Ac mae ein hagenda Gymraeg yn ganolog i bob un. Rydym ni wedi ymateb i'r alwad am fewnrwyd fwy dwyieithog ac am welliannau yn narpariaeth Gymraeg yr Adran Adnoddau Dynol a TGCh
- Roedd y Gymraeg yn thema allweddol yn ein sesiynau ymgynghori am y cynllun corfforaethol newydd a'r defnydd o arian sy'n deillio o'r Lotei Genedlaethol. Rydym ni wedi ymgorffori 'r Gymraeg yn ein dogfennau a'n polisiâu newydd ac mae angen mwy o waith i gryfhau ein hasesiad o ymrwymiad ymgeiswyr i fod yn hwyluswyr ac anogwyr i'r iaith. Rydym wedi clywed neges glir bod angen i'r Cyngor Celfyddydau fod llawer mwy rhagweithiol trwy'r sefydliad i gyd ac ymhob agwedd o'n gwaith.
- Roedd ymgynghori â rhanddeiliaid, partneriaid, sefydliadau ac unigolion a ariannwn yn rhan bwysig o'r tendr Mapio'r Gymraeg roeddem wedi'i gomisiynu eleni. Drwy'r canlyniadau cawn ein harwain gan arbenigwyr yn y maes o ran datblygu'r Gymraeg trwy weithgaredd celfyddydol.

Er ein bod wedi llwyddo i wella pethau, rydym ni'n cydnabod bod llawer rhagor i'w wneud i ehangu'r ystod o gyfranogwyr rydym ni'n ymgysylltu â nhw. Rydym ni hefyd yn gwybod bod ystod eang o fuddiolwyr posibl nad ydym ni'n eu cyrraedd eto.



Gwledd, Ffilm Cymru. Annes Elwy a Nia Roberts
Ffilm Cymraeg cyfoes gan Lee Haven Jones

Atal niwed

- Nod ein hamcanion Cymraeg yw mynd i'r afael â'r agenda atal.
- Rydym ni'n craffu ar geisiadau am arian i sicrhau eu bod yn parchu'r Gymraeg a hyrwyddo delwedd gadarnhaol ohoni.
- Rydym ni wedi ymrwymo i ddefnyddio Cymraeg Clir yn ein holl ddogfennau i annog defnyddio'r Gymraeg yn ysgrifenedig drwy ei gwneud yn hawdd ei ddeall ac yn hygyrch i ystod mor eang â phosibl o siaradwyr Cymraeg.
- Rydym ni'n sicrhau bod cyfran iach o'n staff yn siaradwyr Cymraeg fel y gallwn ddarparu gwasanaeth cyfartal yn y ddwy iaith.

Meddwl yn y tymor hir

- Rydym ni wedi comisiynu gwaith ymchwil ar ystod gweithgaredd celfyddydol yn y Gymraeg er mwyn cael gwell gwybodaeth am y cyfleoedd a'r heriau.
- Rydym yn ymrwymo i weledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yn 2050
- Rydym ni wedi dechrau mynd i'r afael â diffygion yn nifer yr artistiaid ac arweinwyr ym maes y celfyddydau cyfranogol sy'n gallu gweithio yn y Gymraeg drwy interniaethau a phartneriaethau strategol gyda sefydliadau sy'n darparu cyfleoedd dysgu iaith.
- Rydym ni wedi cydnabod nad yw ein system ariannu bresennol sy'n seiliedig ar brosiectau bob amser yn cefnogi mentrau strwythurol, tymor hir sydd eu hangen i gefnogi datblygiad iaith. Mae hyn yn rhywbeth rydym ni'n ceisio mynd i'r afael ag ef pan gaiff y cynlluniau Loteri Genedlaethol newydd eu lansio yn y flwyddyn ariannol nesaf.

Ein nodau o ran y Gymraeg o'n Hadroddiad Blynyddol y llynedd

Gwaith Cymraeg cyfoes mwy amrywiol

Rydym ni am weld gwaith Cymraeg sy'n adlewyrchu'r Gymru gyfoes. Yn aml mae pobl yn ystyried bod y gymuned Gymraeg yn unffurf. Beth am siaradwyr Cymraeg anabl? Siaradwyr Cymraeg o gefndir gwahanol?

Darn o ysgrifennu newydd am y gymuned lesbiaidd, hoyw, ddeurywiol, drawsrywiol a hyfryd, *Tylwyth*, oedd un o'r dramâu olaf i'w pherfformio cyn y Cyfnod Clo. Roedd yn adeiladu ar lwyddiant *Llwyth*, un odramâu Cymraeg mwyaf llwyddiannus y degawd diwethaf. Mae'n arwydd o'r amrywiaeth a'r cynwysoldeb y mae angen ei gefnogi yng ngwaith Cymraeg pob celfyddyd. Mae angen mynychu bywiog ar-lein i gynyddu amlygrwydd a pherthnasedd yr iaith.

Rhagor o gyfleoedd i greu gwaith Cymraeg

Dylai unrhyw artist neu sefydliad celfyddydol yng Nghymru ei chael hi'n hawdd ac yn werth chweil gweithio yn y Gymraeg â'r Saesneg. Gwyddom nad yw hyn yn wir bob amser. Rydym ni am weld rhagor o waith Cymraeg yn cael ei greu sy'n arwain at ragor o gyfleoedd i artistiaid yng Nghymru. Hefyd rydym ni am dyfu'r farchnad i weithwyr llawrydd Cymraeg weithio'n gyfannol a chynaliadwy yn yr hir dymor ar draws y celfyddydau.

Rhagor o gyfleoedd i roi gwaith Cymraeg ar y llwyfan byd-eang

Rydym yn awyddus i weithio llaw yn llaw gyda Llywodraeth Cymru i arddangos ein gwaith Cymreig fel rhan o'i ymrwymiad i ddegawd ieithoedd cynhenid UNESCO a'r weledigaeth o Gymru fel gwlad llesiant.

A ninnau'n wlad ddwyieithog, mae gennym fantais fawr yn y farchnad ryngwladol amlieithyddol. Rydym ni am ddatblygu prosiectau sy'n llwyddo mewn marchnadoedd byd-eang i fagu ffrydiau incwm cynaliadwy i gefnogi gyrfaeodd.

Mae hefyd angen rhagor o artistiaid sydd â sgiliau Cymraeg i weithio ym maes cyfranogi o'r celfyddydau, y celfyddydau cymunedol a gweithgareddau celfyddydol. Rydym ni am gefnogi mentrau sy'n datblygu gallu yn y Gymraeg ac arweinyddiaeth gelfyddydol yn y meysydd yma.

Gwell ddsbarthiad daearyddol i waith Cymraeg

Ar hyn o bryd mae teithiau theatr yn y Gymraeg yn digwydd yn y Gogledd a'r Gorllewin i raddau helaeth. Ond o ran niferoedd mae cynulleidfaoedd Cymraeg mwy yn ein hardaloedd poblog fel Caerdydd ac Abertawe/Llanelli. Mae twf ysgolion Cymraeg ar ei gryfaf y tu allan i'r cadarnleoedd Cymraeg mewn ardaloedd fel cymoedd y De. Ond yno nid oes fawr o weithgarwch Cymraeg rydym ni'n ei ariannu. Mae ein cynllun Noson Allan yn lle da i ddechrau o ran cysylltiadau cymunedol sy'n bodoli eisoes â chynulleidfaoedd ledled Cymru a hefyd rhwydwaith ein Portffolio. Rydym ni eisiau datblygu partneriaethau i'n cynorthwyo i greu cynnyrch Cymraeg perthnasol a all gyrraedd rhagor o ardaloedd a chynulleidfaoedd newydd drwy'r rhwydweithiau presennol a hefyd drwy rai newydd.

Cynyddu nifer y sioeau, digwyddiadau a pherfformiadau yn y Gymraeg yn benodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd

Erbyn hyn mae cynifer o blant yn cael addysg Gymraeg, blaenoriaeth inni yw creu rhagor o waith i bobl ifanc a'r farchnad deuluol. Rydym ni'n gwybod bod gwaith i'w wneud i annog rhieni Cymraeg a di-Gymraeg i gefnogi eu plant i ddatblygu eu sgiliau iaith a bod gan y celfyddydau - gan gynnwys celf ddigidol - ran allweddol i'w chwarae. Mae'r gwaith yn hollbwysig os ydym am gefnogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050.



Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2019
(llun: Betsan Jones)

Beth rydym ni wedi'i gyflawni eleni

- Clustnodi arian strategol i ddatblygu cynllun gweithredu i'r theatr Gymraeg.
- Datblygu galwad agored am gynigion creadigol i ddatblygu gwaith Cymraeg i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn unol â'n blaenoriaethau a'r dystiolaeth am sut i ddatblygu iaith. Cawsom 31 cais a oedd yn well o lawer na'r disgwyl.
- Cynnal prosiect peilot, mewn partneriaeth â Chanolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, i addysgu sgiliau Cymraeg yn sector y celfyddydau. Roedd rhagor o bobl eisiau mynd ar y cwrs nag oedd lle ac roedd y cwrs pob wedi cyflawni pob targed. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gyda'r Ganolfan i weld sut y mae datblygu ein perthynas yn bellach.
- Cynnal trafodaeth am theatr Gymraeg yn Lle Celf Eisteddfod Llanrwst gyda sawl gweithdy Cymraeg i blant.
- Gwaith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru gyda Llywodraeth Cymru i gynnal cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu Blwyddyn Ieithoedd Cynhenid UNESCO yn 2019 a rhaglen yn dathlu'r Gymraeg yn Siapan i gyd-fynd â Chwpan Rygbi'r Byd.
- Cynnwys fel blaenoriaeth artistiaid Cymraeg yn ein prosiect Hadu at y Dyfodol i gymryd cynhyrchwyr ac artistiaid newydd i Wyl Ymylol Caeredin. Yno roedd cyfleoedd iddynt weld gwaith, mynychu gweithdai a chwrdd â rhaglenwyr rhyngwladol.
- Mae ein mewnrwyd bellach yn ddwyieithog, ac mae gan staff fynediad i'n holl systemau mewnol yn Gymraeg gan gynnwys Cascade, ein meddalwedd Adnoddau Dynol.

- Mae ein gwefan yn gwbl ddwyieithog ac rydym ni wedi ymrwymo i ddefnyddio Cymraeg Clir i wneud yn siŵr ein bod yn annog cynifer o siaradwyr Cymraeg â phosibl i ddefnyddio'r Gymraeg drwy wneud y cynnwys mor syml ac uniongyrchol â phosibl.
- Mae ein tîm cyfathrebu wedi cael hyfforddiant Cymraeg Clir yng Nghanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor.
- Rydym ni wedi datblygu partneriaeth gyda swyddfa Comisiynydd y Gymraeg i gynhyrchu Pecyn Offer i gefnogi a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gan ein Portffolio a'r rhai sy'n cael arian y Loteri Genedlaethol gennym.

Roeddem ni wedi comisiynu 2 ddarn o ymchwil i ddatblygu'r Gymraeg yn ein gwaith:

- 1 Adroddiad Mapio'r Gymraeg i ymchwilio i ystod ac amrywiaeth gweithgarwch celfyddydol Cymraeg ac ystyried yn benodol y meysydd nad ydym ni'n eu hariannu. Ein bwriad oedd nodi gorgyffwrdd â chyrrff datblygu'r Gymraeg, grwpiau cymunedol a'r trydydd sector Cymraeg i integreiddio gwaith pawb a chael rhagor o bobl i fwynhau digwyddiadau a gweithgarwch celfyddydol Cymraeg.
 - 2 Adroddiad Marchnata Cymraeg i ymchwilio i wella marchnata a hyrwyddo. Mae ein Portffolio yn codi marchnata fel testun pryder o hyd.
- Rydym ni wedi gweithio gyda Chyngor Caerdydd ar Siarter yr Iaith i ysgolion a datblygiadau Cymraeg cyffredinol yn y ddinas i weld sut y gallwn gyfrannu at ei uchelgais.
 - Rydym ni wedi integreiddio'r Gymraeg yn llawn yn ein rhaglenni allweddol fel Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, y Celfyddydau ac Iechyd a gwaith Celfyddydau Rhyngwladol Cymru.



Y LLe Celf (llun: Betsan Jones)

- Gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol roeddem ni wedi lansio taith Gymraeg a diwylliant i gefnogi cyrff cyhoeddus (ac eraill) yng Nghymru i gyflawni'r nod yna o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- Mae ein tîm Ymchwil wedi dechrau ar y gwaith o gryfhau'r data ar weithgaredd trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn creu mapiau o le mae 'na ddiffyg darpariaeth, cael gwell gafael ar faint o waith sy'n cael ei greu yn y Gymraeg, a faint of artistiaid unigol sy'n cael cefnogaeth.



Chwarae, Theatr Iolo (llun: Kirsten Mcternan)

Beth oeddem ni'n gobeithio ei wneud yn well yn 2019/20?

Yn adroddiad y llynedd, addawom y byddem ni'n gwella'r canlynol:

Angen ei wella	Ymateb
<ul style="list-style-type: none"> Parhau i fonitro effaith (cadarnhaol a negyddol) ein holl bolisiau, prosiectau a chynigion newydd ar y Gymraeg. 	<p>Mae'r templedi ar gyfer papurau ein uwch dîm arwain a'n Cyngor yn cynnwys adran lle mae'n rhaid asesu'r effaith ar y Gymraeg.</p> <p>Rydym ni hefyd yn ystyried gwella ein gwaith o fonitro grantiau yn gyffredinol i ganolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau a chyfraniad at amcanion strategol fel cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg.</p>
<ul style="list-style-type: none"> Datblygu gwaith Cymraeg newydd sy'n canolbwyntio ar feysydd o flaenoriaeth - lleoliadau cymunedol, plant a phobl ifanc a theuluoedd. 	<p>Roeddem ni wedi lansio galwad am gynyrchiadau sy'n ymateb i'r her greadigol roeddem ni wedi'i rhoi i'r sector Cymraeg. Cawsom 31 cais.</p>
<ul style="list-style-type: none"> Gweithio gyda chymunedau ledled Caerdydd i sefydlu rhwydwaith o leoliadau cymunedol a dinesig. 	<p>Bu un o'n swyddogion yn rhan o'r grŵp llywio yng Nghaerdydd yn 2019/20.</p>
<ul style="list-style-type: none"> Pob hysbyseb ar gyfer swydd yn datgan y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na chânt eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg. 	<p>Wedi'i gyflawni</p>

Angen ei wella	Ymateb
<ul style="list-style-type: none"> • Dylai'r holl brosesau recriwtio fod yn ddwyieithog gan gynnwys caniatáu i'r unigolyn ddewis cyfweiliad Cymraeg neu Saesneg ac y gellir defnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd os oes ei angen. 	Wedi'i gyflawni
<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys yn ein proses sefydlu staff newydd ymwybyddiaeth o ddiwylliant a hanes Cymru, y Safonau a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. 	Wedi'i gyflawni
<ul style="list-style-type: none"> • Pob hysbyseb swydd yn datgan y gellir cyflwyno ceisiadau yn Gymraeg ac na chânt eu trin yn llai ffafriol na'r Saesneg. 	Wedi'i gyflawni
<ul style="list-style-type: none"> • Darparu hyfforddiant i ddysgwyr Cymraeg a'r rhai sy'n dymuno gwella eu Cymraeg. 	Wedi'i gyflawni
<ul style="list-style-type: none"> • Mireinio a defnyddio'r data a gasglwn ar ystadegau'r Gymraeg am sut rydym ni'n dosbarthu ein harian. 	<p>Mae hyn yn rhan o brosiect parhaus i wella sut rydym ni'n casglu a defnyddio ein data.</p> <p>Rydym ni wedi gwella ein harolwg blynyddol.</p> <p>Mae gwaith i'w wneud o hyd o ran diffinio gwaith dwyieithog ac a yw hynny'n cyfrannu at ddatblygu'r Gymraeg (neu beidio).</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Asesu'r effaith pob grant rydym ni'n ei roi ar y Gymraeg. 	Mae hyn yn ymwneud â'n Safon 90.

Ar beth y byddwn ni'n ei ganolbwyntio yn 2020/21?

Gweledigaeth Strategol

Nawr yw'r amser i weithredu. Mae angen profi ein bod o ddifri am chwarae rôl flaengar wrth gynnal a datblygu'r iaith Gymraeg. Rhaid buddsoddi mewn gweithredoedd fydd yn gwireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gyrraedd 1M o siaradwyr erbyn 2050. Yn sgil pandemig Covid-19, mae hyn yn hollol dyngedfennol. Mae cymaint o ddigwyddiadau Gymraeg eu hiaith wedi cael eu heffeithio gan y rheolau ymbellhau – dim Eisteddfodau, dim ysgol, dim gweithgareddau cymunedol. Pethau fel hyn yw conglfaen yr iaith a hebddyn nhw, mae'n argyfwng.

Hyrwyddo creadigrwydd drwy'r Gymraeg

Mae ein data'n dal i awgrymu nad ydym ni'n gweld yr ystod o weithgarwch Gymraeg y byddem yn disgwyl ei gweld ar draws y celfyddydau ac ardaloedd Cymru. Ond mae'n galonogol nodi gwelliant yn rhychwant ac ansawdd y theatr Gymraeg eleni. Edrychwn ymlaen at weld y sector yn adeiladu ar hyn, gan ehangu cyfleoedd i gyrraedd cynulleidfaoedd newydd.

Yn haf 2019, roeddem ni wedi cynnal sesiynau trafod sectorau ledled Cymru gyda chynhyrchwyr a chyflwynwyr. Roeddynt yn canolbwyntio ar flaenoriaethau yng Nghynllun Gweithredu'r Theatr Gymraeg. Ond o ystyried y problemau yn sgil y coronafeirws, bydd angen ailystyried y cynllun gweithredu i fynd i'r afael a'r anghenion brys ac ymarferol.

Pecyn Offer Dwyieithrwydd

Mae ein perthynas â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn parhau'n agos wrth gydweithio i ddatblygu Pecyn Hybu Dwyieithrwydd ar-lein i sector y celfyddydau. Roeddem ni wedi cynhyrchu pecyn peilot mewnol gan ddefnyddio enghreifftiau o waith dwyieithog gan Ddawns Rubicon a diolch amdanynt.

Byddwn ni'n gorffen y pecyn erbyn diwedd ail chwarter 2020/21. Bydd yn:

- ① cynnull llawer o'n gwaith diweddar i hyrwyddo'r Gymraeg ar ein gwefan gan gyfeirio'r sector at adnoddau pellach i hyrwyddo'r iaith.
- ② rhoi ysgogiad i wella darpariaeth Gymraeg y sector i'r cyhoedd.

Datblygu partneriaeth gyda'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg

Llwyddiant mawr oedd y cynllun peilot yn chwarter olaf 2019/20 i ddarparu gwersi Cymraeg i'r Portffolio. Roedd yn bartneriaeth rhyngom ni a'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg. Ei nod oedd gweld lefel y diddordeb yn sector y celfyddydau gan ddefnyddio gwasanaethau'r Ganolfan i ddatblygu sgiliau iaith y staff yno, yn enwedig y rhai sydd â chysylltiad â'r cyhoedd. Roedd Iaith Cyf wedi rhoi ar waith y cynllun peilot tri mis ar ran y bartneriaeth. Rydym ni'n gobeithio ymestyn y bartneriaeth yn y flwyddyn ariannol yma o gofio lefel y diddordeb a ddaeth yn sgil y peilot.

Bodloni Safon 90

Bu'r Gymraeg yn ystyriaeth bwysig inni wrth ailddyfeisio sut i ddefnyddio ein harian o'r Loteri Genedlaethol ac ailfeddwl am ein Portffolio. Roeddem ni wedi lansio ein rhaglenni Loteri Genedlaethol newydd ym Medi 2019 ac roedd y Gymraeg yn flaenoriaeth ynddynt. Mae'r Adolygiad Buddsoddi, a oedd i'w lansio ym Mawrth 2020 ond a ohiriwyd oherwydd y pandemig, yn cynnwys cyfeiriad penodol at y Gymraeg. Mae'n gofyn cwestiynau uniongyrchol am sut y byddai'r Portffolio ar ei newydd wedd yn cyflawni ein dyheadau o ran yr iaith.

Llunio gweledigaeth strategol a chynllun gweithredu yn sgil Adroddiad Mapio'r Gymraeg a'r Adroddiad Marchnata Cymraeg

Rydym ni wedi cymryd amser eleni i graffu'n drylwyr ar ein data a chomisiynu dau ddarn o ymchwil. Maent yn canolbwyntio ar fapio gweithgarwch celfyddydol Cymraeg ledled y wlad a hefyd marchnata gwaith Cymraeg. Bydd y ddau ddarn yn dod i ben yn 2020/21 gan roi map ffordd inni at y dyfodol am sut y gallwn fod yn gatalydd ar gyfer cydweithio. Byddant hefyd yn gymorth i ystyried sut rydym ni'n defnyddio ein hadnoddau i sicrhau newid.

Datblygu'r bartneriaeth gyda'r Portffolio

Byddwn ni'n parhau i gefnogi aelodau o'n Portffolio i gynyddu nifer eu staff Cymraeg a'u haelodau Cymraeg ar y bwrdd a'u gweithgareddau cyfranogol Cymraeg targedol. Byddwn ni'n monitro ac adolygu cynnydd yn ôl eu cynlluniau unigol i Ddatblygu'r Gymraeg a thrwy fonitro ffurflenni'r arolwg. Gyda chymaint o adnoddau bellach ar waith i'w cynorthwyo, byddwn ni'n fwy llym yn ein hasesiad ac yn disgwyl eiriolaeth gadarnhaol a phroffil uchel i'r iaith ym mhob gweithgaredd a ariannwn.

Hwyluso rhwydweithio ymhlith y gymuned gelfyddydol Gymraeg

Byddwn ni'n cefnogi rhwydweithio a chydweithio yn y sector. Y nod fydd:

- gwella dealltwriaeth a chynyddu cyfleoedd rhwng y sectorau cynhyrchu a chyflwyno
- cyd-gynhyrchu rhagor o fentrau i annog artistiaid i weithio drwy'r Gymraeg
- ymestyn y ddarpariaeth Gymraeg a gwneud gwaith Cymraeg mor amrywiol â phosibl

Mae'r ymateb i'r coronafeirws wedi gwthio'r cwch i'r dŵr o ran y dull yma o ymdrefnu ac rydym ni'n ei gefnogi.



Ffilm animeiddiedig Gymraeg gan Efa Blossie Mason
Ffilm Cymru



Ystadegau/data allweddol

Arolwg o Bortffolio Celfyddydol Cymru:

Mae'r adroddiad yn crynhoi canfyddiadau Arolwg Portffolio 2019/20 o'u cymharu â rhai 2018/19. Mae'r arolwg yn digwydd ddwywaith y flwyddyn o'r holl aelodau yn y Portffolio ac mae ei lenwi'n amod gofynnol o'r cytundeb ariannu. Ar hyn o bryd mae 67 aelod sy'n cael arian. Ond o ganlyniad i'r coronafeirws dim ond 39 a lenwodd yr arolwg erbyn y dyddiad cau estynedig o 5 Mehefin. Mae'r gymhariaeth felly'n ystyried y 39 aelod a lenwodd arolwg 2019/20 o'u cymharu â'r un aelodau yn 2018/19.

Cofiwch fod llawer o'r rhai nad ydynt wedi ateb eto yw'r union rai y byddem yn disgwyl gweld ganddynt lefel uwch o weithgarwch Cymraeg. Mae hyn yn rhannol esbonio'r gostyngiad sylweddol mewn mynychuadau a chyfranogiadau.

Mynychiadau Cymraeg

	2018/19	2019/20	Canran y newid	2018/19	2019/20	Canran y newid
	Digwyddiadau	Digwyddiadau	Digwyddiadau	Mynychiadau	Mynychiadau	Mynychiadau
Sgrinio Ffilmiau	6	2	-66.7%	354	10	-97.2%
Perfformiadau gan gwmnïau teithiol	441	520	17.9%	37798	51463	36.2%
Perfformiadau mewn lleoliadau	218	122	-44.0%	34945	35750	2.3%
Cyfanswm	665	644	-3.2%	73097	87223	19.3%

Cyfranogiadau Cymraeg

	2018/19	2019/20	Canran y newid	2018/19	2019/20	Canran y newid
	Sesiynau	Sesiynau	Sesiynau	Mynychiadau	Mynychiadau	Mynychiadau
Plant a phobl ifanc	6212	8179	31.7%	63996	32496	-49.2%
Cyffredinol	2883	1748	-39.4%	27787	29712	6.9%
Cyfanswm	9095	9927	9.1%	91783	62208	-32.2%

Cyflogaeth	2018/19	2019/20	Canran y newid
Cyfanswm y gweithwyr	2403	2106	-12.4%
Cyfanswm y gwirfoddolwyr	705	563	-20.1%

Siaradwyr Cymraeg	2018/19	2019/20	Canran y newid
Nifer y gweithwyr Cymraeg	516	643	24.6%
Cyfanswm y gwirfoddolwyr	107	108	0.9%

Byrddau rheoli	2018/19	2019/20	Canran y newid
Cyfanswm aelodau o'r byrddau rheoli	355	349	-1.7%
Cyfanswm y Siaradwyr Cymraeg ar fyrddau rheoli	131	134	2.3%

Y Gymraeg – Arolygon Omnibws

Mynychu'r celfyddydau a chyfranogi ohonynt

Rydym ni am annog pobl i fwynhau'r celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Bob blwyddyn rydym ni'n comisiynu ymchwil annibynnol, Omnibws Cymru, i weld beth sy'n digwydd o ran cynulleidfaoedd a chyfranogwyr Cymraeg. Drwyddo rydym ni'n gweld patrymau mynychu a chyfranogi ar sail sampl ar hap o ryw 1,000 o bobl bob tro.

Data am y Gymraeg o Arolwg Omnibws yr Oedolion, 2019


Dyma'r ffigyrau ar gyfer oedolion.

Canran y siaradwyr Cymraeg sy'n mynychu'r celfyddydau neu'n cymryd rhan ynddynt unwaith y flwyddyn neu'n amlach:

	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019
Mynychu	85%	89%	91%	88%	86%	90%	94%	92%
Cyfranogi	46%	44%	47%	49%	50%	53%	45%	49%

Ffynhonnell: Adroddiadau Omnibws Cymru 2012-2019

- Mynychodd 92.3% o oedolion Cymraeg o leiaf un digwyddiad celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach. Mae hyn yn cymharu ag 86.8% o'r holl oedolion sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol yn ystod y flwyddyn.
- Yn 2019 cymerodd bron hanner o'r holl oedolion (49.3%) ran mewn gweithgarwch celfyddydol o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn sy'n gynydd o 3.7 pwynt canran o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn cymharu â 49.3% o'r holl oedolion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celfyddydol yn ystod y flwyddyn.




Sail: pob oedolyn (2017: 1,021, 2018:1,002 a 2019:1,002)

- Lefelau 2019 oedd yr uchaf dros y cyfnod o dair blynedd yn dilyn cynnydd o 5.4 pwynt canran yn y lefelau mynychu, gan ddod â mynychu i 92.3%
- Mae lefelau mynychu ymhlith y di-Gymraeg wedi aros yn debyg i 2018 gydag 85% o oedolion yn mynychu'r celfyddydau o gymharu ag 84% yn y flwyddyn flaenorol
- Mae'r bwlch mewn lefelau mynychu rhwng y ddau grŵp wedi cynyddu o fwllch o 2.9 pwynt canran yn 2018 i 7.3 pwynt canran yn 2019

Dadansoddiad pellach o fynychu yn ôl gallu yn y Gymraeg

(canran mynychu unwaith y flwyddyn neu'n amlach)




Sail: pob oedolyn (2017: 1,021, 2018:1,002 a 2019:1,002)

Er bod cyfanswm y rhai sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu ychydig dros 2 bwynt canran dros y cyfnod o 3 blynedd, bu gostyngiad ymhlith y siaradwyr Cymraeg rhugl a chynnydd ymhlith siaradwyr nad ydynt yn rhugl yn ystod y cyfnod. Rhwng 2017 a 2019 gostyngodd lefelau mynychu ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl 5 pwynt canran. Ond cynyddodd lefelau mynychu ymhlith siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl o 89.2% i 97.2% sy'n gynydd o 8 pwynt canran rhwng 2017 a 2019.

Cynyddodd lefelau mynychu ymhlith y di-Gymraeg hefyd ar draws y tair blynedd gan 7.6 pwynt canran, o 77.4% yn 2017 i 85% yn 2019. Ond dim ond cynnydd o 1 pwynt canran oedd rhwng 2018 a 2019.

Cyfranogi o'r celfyddydau

Yn 2019 cymerodd bron i 50% o oedolion Cymru ran mewn gweithgarwch celfyddydol unwaith y flwyddyn neu'n amlach.




Sail: pob oedolyn (2017: 1,021, 2018:1,002 a 2019:1,002)


Mae cynnydd o 4.1 pwynt canran yn nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch ers 2018 - o 45.1% i 49.2%. Yn y cyfamser, mae canran y di-Gymraeg sy'n

cymryd rhan mewn gweithgarwch hefyd wedi cynyddu o gymharu â 2018 gan 3.5 pwynt canran i 49.3%.

Fel yn y flwyddyn flaenorol, mae cyfran gyfartal o siaradwyr Cymraeg a phobl ddi-Gymraeg sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch yn 2019.




Sail: pob oedolyn (2017: 1,021, 2018:1,002 a 2019:1,002)



Yn 2019, parhaodd canran y siaradwyr Cymraeg sy'n cymryd rhan mewn gweithgarwch i ostwng gan 2.3 pwynt canran o gymharu â 2018 i 40.7% yn 2019. Ond cynyddodd lefelau cyfranogi ymhlith y siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl o 11.3 pwynt canran y flwyddyn flaenorol. Mae'r bwlch rhwng y ddau grŵp bellach wedi cynyddu o 3 phwynt canran yn 2018 i 17.1 pwynt canran yn 2019.


Mae'r di-Gymraeg wedi gweld cynnydd mewn lefelau gweithgarwch, o 43.5% yn 2018 i 49.35% yn 2019.

Data Cymraeg o Arolwg Omnibws y Plant, 2019



Sail: pob plentyn 7-18 oed (o leiaf 1,000) Ffynhonnell: Omnibws y Plant, 2017-2019


Yn 2019 mae'r rhai sydd â rhyw allu o ran siarad Cymraeg yn mynychu'r celfyddydau yn amlach na'r rhai di-Gymraeg, 92.7% o gymharu ag 83%.



Sail: pob plentyn 7-18 oed (o leiaf 1,000) Ffynhonnell: Omnibws y Plant, 2017-2019


Gan ganolbwyntio'n fanylach ar y berthynas rhwng gallu yn y Gymraeg a mynychu, mae gan y rhai sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg, ond heb fod yn rhugl, lefelau mynychu uwch na'r cyfartaledd (92.3%), megis y rhai rhugl (93.8%). Ond mae mynychu'r di-Gymraeg yn is na'r cyfartaledd (83%).

Cyfranogi o'r celfyddydau



Sail: pob plentyn 7-18 oed (o leiaf 1,000) Ffynhonnell: Omnibws y Plant, 2017-2019

- Fel yn y blynyddoedd blaenorol, yn 2019 mae gan y rhai sy'n siarad Cymraeg gyfraddau cyfranogi uwch na'r rhai di-Gymraeg, 91.1% o gymharu ag 83.1%.
- Er bod gan siaradwyr Cymraeg lefel uwch o gyfranogi, mae lefel y gweithgarwch ymhlith y grŵp wedi aros yn gymharol sefydlog (tua 90%) dros y tair blynedd.



Sail: pob plentyn 7-18 oed (o leiaf 1,000) Ffynhonnell: Omnibws y Plant, 2017-2019

Bu gostyngiad o 6.8 pwynt canran yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhugl sy'n cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch - o 91.9% yn 2018 i 85.1% yn 2019. Mae cyfran y rhai sy'n siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl wedi cynyddu i 94.1% yn 2019.

Hadu at y Dyfodol

Astudiaeth Achos

Gŵyl Ymylol Caeredin, Awst 2019

Rhan o Gymru yng Nghaeredin oedd cymryd artistiaid i weld perfformiadau a chymryd rhan mewn gweithdai a digwyddiadau rhwydweithio i wella eu gyrfa a'u datblygiad proffesiynol. Wrth recriwtio i **Hadu at y Dyfodol**, roeddem ni wedi targedu cynhyrchwyr a pherfformiadau Cymraeg i gynyddu uchelgais gwaith Cymraeg cyfoes. Dyma ddechrau dull hir dymor o gefnogi a datblygu ein talent Gymraeg sydd eisoes yn dechrau dwyn ffrwyth.



Prosiect peilot gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Astudiaeth Achos

CYMRÆG

Dysgu
Learn

Rhwng Ionawr a Mawrth 2020, cynhaliodd y Cyngor brosiect peilot ar y cyd gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol er mwyn hybu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg o fewn y Sector Gelfyddydol. Nod y darn hwn o waith oedd dechrau gweld pa mor barod oedd sefydliadau celfyddydol i ymrwmo i groesawu'r cyfle hwn i roi sgiliau Cymraeg i'w gweithwyr ac i adnabod y galw am fwy o gydweithio er mwyn gwireddu hynny. Er mai recriwtio 15 o sefydliadau oedd y nod cychwynnol, gymaint fu'r brwdfrydedd nes i 25 o sefydliadau fod yn rhan o'r peilot. O blith y rheini aeth 48 o aelodau staff ymlaen i ddefnyddio gwiriwr lefel y Ganolfan. Er gwaethaf effaith cyfnod clo pandemig Cofid-19 ar ddiwedd y peilot bu'n llwyddiant a mae trafodaethau yn parhau gyda'r Ganolfan ar ffyrdd o gyd-weithio yn y dyfodol.

Fel rhan o beilot y Cyngor gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol defnyddiodd Celf ar y Blaen yr adnoddau sydd gan y ganolfan er mwyn rhoi hwb i fedrau ieithyddol staff y Cwmni. Dywedodd Kate Strudwick, Cyfarwyddwr Celf ar y Blaen, Abertyleri:

“Does dim dwywaith amdani, bydd gwella ein gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o fudd i ni. Fel sefydliad celfyddydol cymunedol sy'n gweithredu yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn gwasanaethu anghenion ein cyfranogwyr sy'n siarad Cymraeg. Mae hefyd yn cynyddu cyrhaeddiad ein gweithgareddau ac yn agor drysau i ni fel cwmni. Fel sefydliad diwylliannol hefyd, mae'n hanfodol bwysig ein bod yn parchu ac yn cysylltu'n iawn â diwylliant a iaith ein hardal.”